ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Tan Y Castell

Mae becws traddodiadol o Sir Benfro wedi dechrau ar gyfnod newydd o dwf ar ôl prynu, gyda chymorth cefnogaeth arloesedd Llywodraeth Cymru, robot sy'n cymysgu cacennau.




Cafodd y cymysgydd cacennau awtomatig – Reiser Vemag V500 B ei brynu ddiwedd 2014 ar ôl derbyn cyllid arloesedd gyda chefnogaeth arian yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r peiriant yn mesur yn gywir ac yn cymysgu'r toes yn gywrain ac mae wedi gwella ansawdd ac effeithlonrwydd y busnes yn arwyddocaol. Mantais fawr arall y dechnoleg yw rhagor yn cael ei gynhyrchu heb gyfaddawdu ar safon natur cynnyrch cartref Tan y Castell – prif bwynt gwerthu'r becws.

Daeth y cyllid ar adeg anodd yn fasnachol i Dan y Castell. Gyda 40 o weithwyr llawn a rhan amser yr adeg hynny, roedd y cefnogaeth yn hanfodol i ddiogelu swyddi.

Fodd bynnag, prif effaith y cyllid oedd galluogi'r busnes i ddatblygu yn y tymor hir. Yn ddiweddar, mae'r cwmni wedi lansio cynnyrch cyffrous, newydd di-gluten ac mae'n gobeithio cael cymaint ag wyth math newydd o gynnyrch erbyn diwedd 2016.

Eisoes mae Tan y Castell wedi gwerthu mwy erbyn canol 2015 nag yn 2014. O ganlyniad i'r uchelgais a'r llwyddiant newydd hwn mae Tan y Castell wedi recriwtio pedwar aelod newydd llawn amser o staff ers derbyn y cyllid. Mae'r arian arloesedd hefyd wedi arwain at newid diwylliant yn y becws, sy'n amlwg ag ymrwymiad newydd i dechnoleg ac Ymchwil a Datblygu.

Meddai Paul Mear, Rheolwr Cyfarwyddwr Tan y Castell: "O safbwynt datblygu cynnyrch newydd, fyddwn ni ddim wedi gallu cyflawni hanner yr hyn rydym wedi'i wneud heb y cyllid arloesedd. Mae wedi agor drysau newydd i ni ynghylch sut i feddwl am gynhyrchu."

Busnes Cymru
Business Wales

**I wybod rhagor am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:**

**Ebost:** businesssupport@wales.gsi.gov.uk

**Gwefan:** busnes.cymru.gov.uk

**Ffôn:** 03000 6 03000

arloesi

WG22758 / © Hawlfraint y Goron 2015

OGL